# Cynnig i newid statws Ysgol Cae’r Gwenyn o fod yn ysgol feithrin brif ffrwd i fod yn ysgol gynradd arbennig, a newid yr ystod oedran o 3-4 i 3-7 o fis Medi 2025 ymlaen.

## Dogfen Ymgynghori Statudol




Mae’r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd ar wahân i’r Gymraeg neu’r Saesneg ar gais. Mae hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch fel print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain a CD sain ar gais. I wneud cais am y ddogfen hon mewn fformat neu iaith arall, anfonwch e-bost at SustainableCommunitiesForLearning@wrexham.gov.uk neu ysgrifennwch at y Tîm Mynediad a Lleoedd Ysgol, Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, Adeiladau’r Goron, 31 Stryt Caer,

Wrecsam, LL13 8BG.

## Cynnwys

Cynnig i newid statws Ysgol Cae'r Gwenyn o fod yn ysgol feithrin brif ffrwd i fod yn ysgol gynradd arbennig, a newid yr ystod oedran o 3-4 i 3-7 o fis Medi 2025 ymlaen. 1
**Y Cynnig** 5
Cyflwyniad 5
Cefndir a Rhesymeg dros y Newid 5
Amserlen Dyddiadau Allweddol 6
Effaith y Cynnig – Manteision ac Anfanteision 6
Mesurau lliniaru 7
Crynodeb o'r Manteision a'r Anfanteision 7
**Beth fyddai'r cynnig hwn yn ei olygu?** 7
Adnoddau ar gyfer Addysg / Goblygiadau Ariannol 8
Goblygiadau Corff Llywodraethu 8
Goblygiadau Staffio 9
Goblygiadau Trafnidiaeth 9
Cynaliadwyedd 9
Cefnogi'r Gymuned 9
Effaith ar ysgolion eraill 9
Ansawdd a Safonau mewn Addysg 10
Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safon Addysg 11
Risgiau / Dibyniaethau'r Cynnig 11
Opsiynau Eraill a Ystyriwyd 11
**Asesiadau Effaith** 12
**Y Broses Ymgynghori** 14
Â phwy yr ymgynghorir? 14
**Y Cyfnod Ymgynghori** 15
Ystyried eich barn 15
Cyfarfodydd Ymgynghori 15
Amserlen y Sesiynau Galw Heibio 15

Ymgynghori â Disgyblion ........ 16
Adroddiad Ymgynghori ........ 16
Cyhoeddi Hysbysiadau Statudol ........ 17
Cyfnod Gwrthwynebiad Statudol ........ 17
Penderfynu ar Gynnig ........ 18
Hysbysiad o'r Penderfyniad ........ 18

# Y Cynnig

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig canlynol:

**Newid statws Ysgol Cae'r Gwenyn o fod yn ysgol feithrin brif ffrwd i fod yn ysgol gynradd arbennig, a newid yr ystod oedran o 3-4 i 3-7 o fis Medi 2025 ymlaen.**

Yn dilyn ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig hyn, bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid gweithredu'r cynnig.

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu hystyried gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor, a fydd yn penderfynu sut i fwrw ymlaen.

Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau **ddydd Llun 2 Rhagfyr 2024** a bydd yn dod i ben **ddydd Gwener 24 Ionawr 2025**.

## Cefndir a Rhesymeg dros y Newid

Mae Ysgol Cae'r Gwenyn wedi'i chofrestru ar hyn o bryd fel ysgol feithrin brif ffrwd cyfrwng Saesneg, gyda chymysgedd o ddysgwyr prif ffrwd a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar Ffordd y Tywysog Siarl yn ward Queensway. Mae gan yr ysgol nifer derbyn cyhoeddedig (PAN) o 15 disgybl (adnodd) a 15 disgybl (prif ffrwd), gydag ystod oedran o 3-4 oed. Mae bron pob disgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae gan bron pob disgybl anghenion dysgu ychwanegol. Mae bron pob disgybl yn ddi-eiriau pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol.

Mae gan y Cyngor enw da am ddiwallu ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol, gyda chontinwwm o ddarpariaeth arbenigol. Mae'r rhan fwyaf o blant ag ADY yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd ac mae'r awdurdod yn parhau i weithio gydag ysgolion prif ffrwd i fod yn fwyfwy cynhwysol ac ymatebol i ystod gynyddol o anghenion.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw am lefydd mewn ysgolion arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi cynyddu yn Wrecsam. Mae nifer sylweddol o blant sydd ag anghenion mwy difrifol a chymhleth yn gofyn am leoliad mwy arbenigol er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu a lles.

Drwy gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r galw cynyddol am lefydd mewn ysgolion arbennig drwy gynyddu'r ystod oedran yn Ysgol Cae'r Gwenyn. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw statws presennol yr ysgol yn addas mwyach. Bydd hyn yn galluogi ystod oedran ehangach o blant ag anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau bod eu hanghenion dysgu a lles yn cael eu diwallu mewn darpariaeth ysgol arbennig gofrestredig.

## Amserlen Dyddiadau Allweddol

Nodwch, mae'n bosib y bydd newidiadau i amserlenni'r ymgynghoriad. Yn yr achos hwn, byddai unrhyw newidiadau'n cael eu cyhoeddi.

| **Digwyddiad** | **Dyddiadau** |
|---|---|
| Y Cyfnod Ymgynghori<br><br>Yn ystod y cyfnod hwn, gallwch fynegi eich barn drwy:<br><br>• Fynd i sesiynau galw heibio (bydd nodiadau'n cael eu cymryd)<br>• Llenwi'r arolwg ar-lein<br>• Ysgrifennu at y Cyngor neu anfon e-bost ato<br>• Llenwi'r ffurflen ymateb ar ddiwedd y llyfryn hwn | 2 Rhagfyr 2024 tan 24 Ionawr 2025 |
| Adroddiad Ymgynghori wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol | 8 Ebrill 2025 |
| Cyhoeddi Hysbysiad Statudol a Dechrau Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol | 29 Ebrill 2025 |
| Diwedd Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol | 2 Mehefin 2025 |
| Y Bwrdd Gweithredol yn Penderfynu ar Benderfyniad Terfynol y Cynnig | 8 Gorffennaf 2025 |
| Hysbysiad o'r Penderfyniad yn cael ei Gyflwyno i'r Ymgyngoreion | Gorffennaf 2025 |
| Gweithredu'r Cynnig | 31 Awst 2025 |

## Effaith y Cynnig – Manteision ac Anfanteision

## Beth yw'r manteision posibl?

Bydd gan yr ysgol gynradd arbennig y manteision canlynol:

- Mwy o fynediad at addysg arbenigol i blant yn ardal Wrecsam sydd ag anghenion addysgol ychwanegol cymhleth a sylweddol.
- Cyfleusterau dysgu cynaliadwy a gwell i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd ag anghenion addysgol ychwanegol mwy cymhleth a sylweddol.

- Darpariaeth arbenigol ac adnoddau arbenigol gyda gwell mynediad at gyfleusterau fel ystafelloedd synhwyraidd ac amgylcheddau dysgu therapiwtig allanol.
- Gwell amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored i blant Wrecsam sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Ymyrryd yn gynharach o ran plant 3-7 oed, sy'n golygu gwell cyfleoedd bywyd yn y tymor hir.
- Llai o leoliadau a phontio, sy'n golygu y byddai plant yn gallu aros yn y lleoliad am fwy o amser gyda gweithwyr cymorth cyson a theithiau / trefniadau trafnidiaeth cyson.
- Bydd mwy o blant yn gallu aros o fewn yr awdurdod ar gyfer eu haddysg heb fod angen teithio'n bell a chyrraedd eu haddysg y tu allan i'r sir.
- Hyblygrwydd i addasu i anghenion sy'n newid a mwy o alw.
- Yn ategu gweledigaeth Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol Wrecsam i gyflwyno darpariaeth statudol ddigonol a hyblyg i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Gwell cyfleoedd ar gyfer gwaith aml-asiantaeth, gan gynnwys mynediad at weithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer mwy o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Adnoddau wedi'u targedu'n fwy effeithlon gan leddfu'r pwysau ar ysgolion prif ffrwd a dysgwyr.
- Mwy o werth am arian oherwydd cymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliad arbenigol.

## Beth yw'r anfanteision posibl?

- Efallai y bydd yn rhaid i rai plant deithio ymhellach ac am fwy o amser os nad ydynt yn byw yn yr ardal leol.
- Ar hyn o bryd nid oes cyfleuster gofal plant ar y safle, sy'n effeithio ar rai teuluoedd.

## Mesurau lliniaru

- Bydd plant ag ADY yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth arbenigol sy'n diwallu eu hanghenion.
- Bydd plant ag ADY yn parhau i gael eu cefnogi o ran costau a threfniadau trafnidiaeth.
- Gellir cludo plant ag ADY sy'n mynychu'r ysgol i leoliad gofal plant arall.

## Crynodeb o'r Manteision a'r Anfanteision

Yng ngoleuni'r manteision a'r anfanteision uchod, mae'r Cyngor o'r farn bod manteision tymor hwy y cynnig a amlinellir uchod yn drech nag unrhyw anfanteision. Bydd unrhyw risgiau posibl yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n ofalus lle bynnag y bo modd.

# Beth fyddai'r cynnig hwn yn ei olygu?

Mae'r cynnig hwn yn golygu y bydd Ysgol Cae'r Gwenyn yn y dyfodol yn cael ei chofrestru fel ysgol gynradd arbennig ar gyfer plant 3-7 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Ni fyddai Ysgol Cae'r Gwenyn yn gallu cynnig ceisiadau prif ffrwd mwyach. Byddai pob plentyn yn cael lleoliad yn yr ysgol drwy broses banel (gweler isod). Yn y pen draw, bydd yr ysgol yn gweithredu ar draws dau safle. Os bydd y

Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo'r cynnig ym mis Gorffennaf 2025 yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol, bydd yr ysgol yn cau'n swyddogol fel meithrinfa gofrestredig ar 31 Awst 2025 a bydd ei statws yn newid i ysgol gynradd arbennig a ddaw i rym o 1 Medi 2025.

Mae'r Cyngor yn cyflwyno'r cynnig hwn oherwydd galw cynyddol am leoliadau asesu ar gyfer plant 3-7 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae newidiadau cymdeithasol dros y blynyddoedd diwethaf, a waethygwyd i raddau helaeth gan bandemig Covid-19, ond nid dim ond oherwydd hynny, wedi arwain at oedi sylweddol o ran datblygiad plant y blynyddoedd cynnar yn y meysydd canlynol:

- Lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Cyfathrebu cymdeithasol
- Oedi corfforol (sgiliau echddygol manwl a bras)
- Datblygiad emosiynol a chymdeithasol
- Sgiliau hunangymorth (e.e. mynd i'r toiled)
- Datblygiad gwybyddol

### Panel Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar

Mae panel o arbenigwyr Blynyddoedd Cynnar yn Wrecsam yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae ganddynt feini prawf i leoli'r rhai sydd fwyaf angen asesiad/lleoliad arbenigol. Mae hyn yn digwydd dair gwaith y flwyddyn. Mae'r panel yn cynnwys gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol, gan gynnwys rheolwyr gwasanaeth o Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar, Swyddogion Cynhwysiant, gweithwyr iechyd proffesiynol gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd ac ymwelwyr iechyd, tîm datblygu cyn ysgol Wrecsam, rheolwyr Darpariaeth Adnoddau a Thîm ADY y Blynyddoedd Cynnar. Edrychir yn fanwl ar bob achos, yna maent yn cael eu brysbennu, a chynigir llefydd yn seiliedig ar yr angen mwyaf.

## Adnoddau ar gyfer Addysg / Goblygiadau Ariannol

Byddai cyllid o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei ddefnyddio i gefnogi unrhyw brosiectau sy'n deillio o'r cynnig hwn, a allai ofyn am fuddsoddiad cyfalaf i wneud y gorau o amgylcheddau dysgu a hyrwyddo cynwysoldeb ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (e.e. pe bai'r cynnig terfynol yn cynnwys capasiti ychwanegol ar gyfer dysgwyr ADY). Byddai unrhyw gostau refeniw ychwanegol yn cael eu hariannu o gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgolion. Byddai'r costau ychwanegol yn dod â manteision system gyfan ac yn golygu y bydd plant sydd angen cymorth arbenigol yn gallu cael gafael arno mewn modd mwy amserol.

## Goblygiadau Corff Llywodraethu

Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y corff llywodraethu na'r trefniadau llywodraethu yn yr ysgol o ganlyniad i'r cynnig hwn. Mae'r corff llywodraethu yn cefnogi'r cynnig yn llawn ac yn cydnabod y manteision lluosog i blant Wrecsam sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, y mae angen iddynt gael mynediad at

ddarpariaeth ysgol gynradd arbennig. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau a threfniadau yn y dyfodol mewn perthynas â derbyniadau, cyflogaeth a'r cwricwlwm yn cael eu trin gan yr ysgol a'r awdurdod lleol yn unol â hynny.

## Goblygiadau Staffio

Efallai y bydd effaith ar athrawon a staff cymorth o ganlyniad i'r cynnig hwn. Bydd angen i'r ysgol ystyried sut i recriwtio staff ychwanegol lle bo angen a diwygio strwythurau staffio lle bo angen. Bydd safbwyntiau staff yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

## Goblygiadau Trafnidiaeth

Ni fydd trafnidiaeth i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Cae'r Gwenyn yn newid a bydd yn aros yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. Yn unol â pholisi trafnidiaeth ysgol y Cyngor, darperir trafnidiaeth am ddim i bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen cludiant. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant hwn.

Gallai'r cynnig olygu y gallai rhai plant orfod teithio ymhellach ac am fwy o amser os nad ydynt yn byw yn yr ardal leol, ond mae manteision cael llai o leoliadau a phontio yn golygu y byddai plant yn gallu aros yn y lleoliad am fwy o amser gyda gweithwyr cymorth cyson a theithiau / trefniadau trafnidiaeth cyson. Hefyd, bydd mwy o blant yn gallu aros o fewn yr awdurdod ar gyfer eu haddysg heb fod angen teithio'n bell a chyrraedd eu haddysg y tu allan i'r sir.

## Cynaliadwyedd

Nid yw'r cynnig penodol hwn yn cynnwys unrhyw newidiadau i adeilad mewnol neu allanol presennol yr ysgol.

Fel rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030, bydd prosiectau ysgol sy'n cynnwys adnewyddu neu adeiladu o'r newydd yn cynnwys nodweddion carbon isel, ynni-effeithlon ac arloesol er mwyn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu Sero Net.

## Cefnogi'r Gymuned

Mae cynaliadwyedd ein cymunedau dysgu yn y dyfodol yn cael ei gefnogi'n dda os byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau addysgol presennol ac os byddwn yn creu cyfleusterau newydd lle mae eu hangen fwyaf. Ein nod yw darparu lle diogel cynnes i grwpiau cymunedol a gweithgareddau wedi'u trefnu yn ein hysgolion a lleihau effaith anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymunedau. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm sy'n gweithio ar Ysgolion Bro i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig, gan ddarparu mannau cynhwysol sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi a gwella lles teuluoedd a dysgwyr yn ein cymunedau.

## Effaith ar ysgolion eraill

Mae ysgolion eraill sydd â darpariaeth arbenigol y gallai hyn effeithio arnynt wedi'u rhestru isod. Fodd bynnag, ni fydd fawr o effaith ar y darpariaethau hyn gan fod gan

Cae'r Gwenyn ar hyn o bryd lefel uchel o ddisgyblion yn mynychu gydag anghenion dysgu ychwanegol.

- Canolfan Asesu Alexandra
- Heulfan Arbenigol / Anawsterau dysgu difrifol
- Y Rofft – uned Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig
- Y Canol - Anawsterau dysgu dwys a lluosog / Anawsterau dysgu difrifol
- Gwenfro Darpariaeth ag Adnoddau Generig
- Llai Darpariaeth ag Adnoddau Generig
- Santes Fair Brymbo Darpariaeth ag Adnoddau Generig
- Hafod y Wern Darpariaeth ag Adnoddau Generig
- Bodhyfryd Darpariaeth ag Adnoddau Generig
- St Anne's Darpariaeth ag Adnoddau Generig
- Yr Hafod Darpariaeth ag Adnoddau Generig

## Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau'n uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag Estyn er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chefnogi gwella ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc Wrecsam.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y goron ac fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Senedd Cymru ond mae'n cael ei gyllid gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau'r ddarpariaeth mewn ysgolion a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru.

Wrth gynnig newidiadau i'r math hwn o ysgol, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyfeirio at adroddiad diweddaraf Estyn ac unrhyw dystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ddangos effaith debygol y cynigion ar ansawdd:

- Safonau/Dysgu
- Lles ac Agweddau at Ddysgu
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal, Cymorth ac Arweiniad
- Arwain a Rheoli

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol. Pwrpas arolwg yw canfod nodweddion da a diffygion mewn ysgol fel y gallant wella ansawdd yr addysg a gynigir

a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Ar ôl yr arolwg, mae Estyn yn cyhoeddi adroddiad ac yn rhoi argymhellion ar gyfer gwella i ysgolion.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Estyn yn Ysgol Cae'r Gwenyn ym mis Mehefin 2023. I gael rhagor o wybodaeth am yr arolygiad, dilynwch y ddolen isod i wefan Estyn:

Ysgol Cae'r Gwenyn

## Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safon Addysg

Os gweithredir y cynnig, barn y Cyngor yw y byddai'r ysgol yn parhau i gynnal y safonau cyfredol ac ansawdd addysg i'r plant. Mae'r cynnig hwn yn ceisio adeiladu ar y safon bresennol gyda'r bwriad o gryfhau a gwella'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant, gan arwain at fwy o ymgysylltu a mwynhad ymysg disgyblion mewn dysgu ac effaith gadarnhaol ar lesiant disgyblion.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod profiadau dysgu ac addysgu cadarnhaol. Darperir amgylchedd meithringar o ofal, cefnogaeth ac arweiniad i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Cae'r Gwenyn.

## Risgiau / Dibyniaethau'r Cynnig

Mae'r cynnig hwn yn amodol ar y broses ymgynghori a'r cyfnod rhybudd statudol dilynol. Os bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Hysbysiad Statudol, a fydd yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig o fewn cyfnod o 28 diwrnod.

Os derbynnir gwrthwynebiadau, cyhoeddir adroddiad gwrthwynebiad ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais hefyd. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn darparu ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny.

Bydd yr holl risgiau posibl yn cael eu monitro fel rhan o Strategaeth Rheoli Risg Ysgolion Cyngor Sir Wrecsam. Drwy fonitro a sicrhau bod dull cadarn o ymdrin ag unrhyw risgiau ac anfanteision, gellir lleihau'r effaith ar ddisgyblion, rhieni, gofalwyr, athrawon a staff cymorth.

## Opsiynau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio, mae'r Cyngor wedi ystyried nifer o opsiynau eraill.

**Opsiwn 1 - Y status quo**

Cynnal y statws presennol a'r ystod oedran yn Ysgol Cae'r Gwenyn.

Wedi'i ddiystyru oherwydd:

- Dim digon o gapasiti ar sail y galw presennol a’r galw a ragwelir am ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae’r statws cofrestredig presennol fel meithrinfa brif ffrwd yn anaddas ac nid yw’n addas i’r diben mwyach.

### Opsiwn 2 – Cynyddu’r ddarpariaeth mewn lleoliadau prif ffrwd

Wedi’i ddiystyru oherwydd:

- Effaith ar ddysgwyr prif ffrwd oherwydd oedi sylweddol yn natblygiad plant sy’n mynychu Ysgol Cae’r Gwenyn.
- Mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar bob plentyn a leolir yn Ysgol Cae’r Gwenyn.
- Mae’r cyfnod asesu yn Ysgol Cae’r Gwenyn yn caniatáu amser i ddadansoddi anghenion plant cyn penderfynu a ydynt yn dychwelyd i addysg brif ffrwd neu i leoliad arbenigol tymor hir.
- Darperir dull cyfathrebu cyflawn ar gyfer y plant, ynghyd â mewnbwn synhwyraidd dyddiol a rhyngweithio dwys rhwng oedolion, a ddarperir mewn lleoliad arbenigol.
- Mae mwy o waith cefnogi teuluoedd mewn lleoliad arbenigol yn helpu i gefnogi teuluoedd agored i niwed.

### Opsiwn 3 - Newid y statws presennol a’r ystod oedran yn Ysgol Cae’r Gwenyn

Yr opsiwn a ffefrir am resymau a amlinellir yma.

# Asesiadau Effaith

Mae’r asesiadau effaith cychwynnol canlynol wedi cael eu cynnal fel rhan o’r cynnig hwn ac mae’r crynodebau isod wedi cael eu gwireddu. Mae asesiadau effaith yn ddogfennau gwaith a gellir eu diweddaru drwy gydol y broses statudol. Bydd adborth gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ddefnyddio fel sail i’r asesiadau effaith.

### Asesiad Effaith Integredig

Mae asesiad effaith integredig cychwynnol wedi cael ei gynnal mewn perthynas ag effeithiau posibl ar nifer o agweddau, gan gynnwys Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae’r adroddiad asesu effaith integredig yn cyflwyno gwybodaeth a sicrwydd ynghylch sut rydym, wrth wneud penderfyniadau, wedi ystyried ein dyletswyddau a’n hymrwymiadau mewn perthynas â deddfwriaeth, blaenoriaethau a strategaethau sy’n ymwneud â’r cynnig. Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol yn yr asesiad cychwynnol.

### Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

Mae Asesiad cychwynnol o’r Effaith ar y Gymraeg wedi’i gynnal mewn perthynas ag effeithiau posibl ar y Gymraeg ac ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae’r cynnig hwn yn cysylltu ag amcanion canlynol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg:

Amcan 6:

*Cynnydd yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â’r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.*

Amcan 7:

*Cynyddu nifer y staff addysgu sy’n gallu dysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Mae’r Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg yn ceisio archwilio i ba raddau y mae’r cynnig yn cefnogi targedau’r Cynllun a sut y gallai’r cynnig ehangu neu leihau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae asesiad cychwynnol wedi canfod bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr ymrwymiad presennol i’r Gymraeg a’r defnydd ohoni yn Ysgol Cae’r Gwenyn, ond yn cydnabod bod mwy o waith i’w wneud i fynd i’r afael â diffygion yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ADY ac i wella cymhwysedd staff i liniaru unrhyw effaith negyddol.

Bydd gwaith parhaus mewn perthynas ag amcanion ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn lleihau ac yn lliniaru unrhyw effeithiau posibl o’r cynnig, wrth i ni barhau i hybu a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a Cymraeg 2050.

**Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned**

Mae’r asesiad cychwynnol o’r effaith ar y gymuned wedi dangos y bydd effaith gadarnhaol ar y gymuned gan y bydd yr ysgol dan sylw yn gallu darparu amgylchedd dysgu mwy penodol, cefnogol ac effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth a sylweddol.

**Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth**

Mae canlyniadau’r Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth cychwynnol yn dangos bod y cynnig yn ymarferol ac nad oes unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol wedi cael eu nodi yn yr asesiad cychwynnol. Darperir trafnidiaeth am ddim i bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen cludiant. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant hwn. Ni fydd trafnidiaeth i’r disgyblion sy’n mynychu Ysgol Cae’r Gwenyn yn newid a bydd yn aros yn unol â pholisi’r Cyngor ar gyfer cludiant o’r cartref i’r ysgol. Cydnabyddir y gall y cynnig olygu y bydd yn rhaid i rai plant deithio ymhellach ac am fwy o amser os nad ydynt yn byw yn yr ardal leol. Fodd bynnag, mae’r manteision o lai o leoliadau a phontio, yn golygu y byddai plant yn gallu aros yn y lleoliad am fwy o amser gyda gweithwyr cymorth cyson a theithiau / trefniadau trafnidiaeth cyson. Hefyd, bydd mwy o blant yn gallu aros o fewn yr awdurdod ar

gyfer eu haddysg heb fod angen teithio'n bell a chyrraedd eu haddysg y tu allan i'r sir.

# Y Broses Ymgynghori

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi gwybodaeth y bydd angen i ymgyngoreion ei hystyried er mwyn cymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018.

## Â phwy yr ymgynghorir?

Gofynnwyd i amrywiaeth o unigolion am eu barn ar y cynnig, gan gynnwys:

- Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaethau Catholig
- Awdurdodau Lleol Eraill: Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Swydd Amwythig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
- Corff Llywodraethu Ysgol Cae'r Gwenyn
- Holl Gyrff Llywodraethu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam
- Pob Ysgol Gynradd ac Uwchradd yn Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig.
- Rhieni/Gofalwyr (a darpar rieni/gofalwyr) Ysgol Cae'r Gwenyn
- Aelodau staff Ysgol Cae'r Gwenyn
- Cyngor Cymuned Parc Caia
- Y Fforwm Cymraeg mewn Addysg, gan gynnwys Menter Iaith Fflint a Wrecsam, RhAG a Mudiad Meithrin
- Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Senedd: Lesley Griffiths AS, Ken Skates AS, Llyr Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Sam Rowlands AS
- Aelodau Seneddol Lleol: Andrew Ranger Aelod Seneddol, Gill German Aelod Seneddol, Becky Gittins Aelod Seneddol
- Estyn a GwE
- Undebau llafur sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Cae'r Gwenyn
- Adran Trafnidiaeth Ysgolion Cyngor Wrecsam
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Lleol
- Darparwyr Meithrinfeydd Annibynnol Lleol, Cylchoedd Chwarae, Gwarchodwyr Plant a Darparwyr Dechrau'n Deg
- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Y Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- SNAP Cymru
- Gwasanaeth Seicoleg Addysg

- Iechyd, gan gynnwys Gwasanaeth Iaith a Lleferydd, Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, Gwasanaeth Ffisiotherapi, Gwasanaeth Datblygu Cyn-ysgol, pediatreg
- Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd Gogledd Ddwyrain Cymru
- Gwasanaeth Dechrau'n Deg / Hawl Bore Oes

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac mae'r ymgynghoriad yn agored i bawb sy'n dymuno cymryd rhan.

## Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau **ddydd Llun 2 Rhagfyr 2024** a bydd yn dod i ben **ddydd Gwener 24 Ionawr 2025**.

### Ystyried eich barn

Mae sawl ffordd y gallwch gyfathrebu eich safbwyntiau i ni, gan gynnwys:

- Dychwelyd y ffurflen ymateb amgaeedig i'r cyfeiriad a ddarperir isod.
- Anfon eich sylwadau drwy e-bost at YsgolCaerGwenynConsultation@wrexham.gov.uk

Neu, gallwch gyflwyno eich safbwyntiau'n ysgrifenedig i: Ymgynghoriad Ysgol Cae'r Gwenyn, Addysg, Adeiladau'r Goron, 31, Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG.

Oherwydd nifer yr ymatebion a gawn wrth ymgynghori ar opsiynau, ni fyddwn yn gallu cydnabod ymatebion ysgrifenedig na gohebu â phartïon sydd â diddordeb naill ai yn ystod neu ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd themâu allweddol ynghyd ag enghreifftiau o'r sylwadau a wneir ar gael i Aelodau Etholedig at ddibenion gwneud penderfyniadau, a rhoddir ymateb iddynt hefyd drwy gyhoeddi adroddiad ar ôl yr ymgynghoriad.

Rydym yn awgrymu'n garedig na fydd unrhyw sylwadau'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar hyn o bryd.

### Cyfarfodydd Ymgynghori

Gallwch hefyd ein gweld yn y sesiynau galw heibio a gynhelir yn yr ysgol ac yn y gymuned yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn y sesiynau hyn, byddwch yn gallu siarad â swyddogion o'r Cyngor a fydd ar gael i ateb eich cwestiynau.

Nodwch, mae'n bosib y bydd newidiadau i amserlenni'r ymgynghoriad a'r sesiynau galw heibio. Yn yr achos hwn, byddai unrhyw newidiadau'n cael eu cyhoeddi.

### Amserlen y Sesiynau Galw Heibio

| Natur y Sesiwn | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mercher 18 Rhagfyr 2024 | 9.00am-12.00pm | Canolfan Adnoddau Acton |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Llun 16 Rhagfyr 2024 | 8.30am-9.30am | Ysgol Cae'r Gwenyn |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Llun 16 Rhagfyr 2024 | 2.45pm-3.45pm | Ysgol Cae'r Gwenyn |
| Sesiwn Rithwir* | Dydd Llun 13 Ionawr 2025 | 5.00pm-5.30pm | Dolen ar-lein i'w rhannu drwy e-bost |

**I ofyn am fynediad i'r sesiwn rithwir e-bostiwch:* YsgolCaerGwenynConsultation@wrexham.gov.uk

Cofrestrwch eich diddordeb ar gyfer y sesiwn ymgynghori rithwir erbyn dydd Llun 16 Rhagfyr 2024 fan bellaf. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i ni anfon dolen a chyfarwyddiadau rhithwir atoch cyn y sesiwn.

## Ymgynghori â Disgyblion

Mae Cyngor Wrecsam wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i blant allu cyfrannu at benderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar eu bywydau a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

Darparwyd fersiwn atodol o'r ddogfen ymgynghori hon i bob disgybl i'w galluogi i roi eu barn. Cynhelir sesiwn gyda phlant yn yr ysgol yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Bydd y Cyngor yn ceisio barn disgyblion mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy arolwg ar-lein. Mae'r fersiwn plant a phobl ifanc wedi cael ei hysgrifennu'n benodol i alluogi pob plentyn i ddeall ac ymgysylltu'n well â'r broses ymgynghori ffurfiol. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei chynnwys yn y ddogfen ôl-ymgynghori.

## Adroddiad Ymgynghori

O fewn 13 wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori (ac mewn unrhyw achos, cyn cyhoeddi'r cynigion), bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori a fydd yn:

- Crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion.
- Ymateb i'r rhain drwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol.
- Nodi rhinweddau cyffredinol y cynnig fel y tynnwyd sylw atynt gan Estyn yn eu hymateb.

Gall yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol neu'r Corff Llywodraethu ynghylch sut i fwrw ymlaen (h.y. cyhoeddi'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a

chadw’r sefyllfa bresennol neu wneud newidiadau sylweddol i’r cynnig ac ailymgynghori).

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw safbwyntiau gan blant a phobl ifanc y mae’r cynnig yn effeithio arnynt yn cael ei nodi yn yr adroddiad ymgynghori, a’u bod ar gael iddynt.

Bydd yr adroddiad ymgynghori’n cael ei gyhoeddi’n electronig ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a bydd yn destun pob gwiriad hygyrchedd er mwyn sicrhau ei fod ar gael i bawb yr ymgynghorir â nhw. Bydd copïau caled o’r adroddiad ar gael ar gais.

## Cyhoeddi Hysbysiadau Statudol

Mae hyn yn amodol ar gymeradwyo’r Adroddiad ar ôl yr Ymgynghoriad a fydd yn cael ei gyflwyno i’r Bwrdd Gweithredol ar 8 Ebrill 2025. **Nodwch, mae’n bosib y gall y dyddiad hwn newid.**

Os derbynnir yr argymhelliad, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn dechrau ar 29 Ebrill 2025. **Nodwch, mae’n bosib y gall y dyddiad hwn newid.** Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei arddangos wrth fynedfa’r ysgol.

## Cyfnod Gwrthwynebu Statudol

| | |
|---|---|
| Cyhoeddi Hysbysiad Statudol a Dechrau Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol | 29 Ebrill 2025 |
| Diwedd Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol | 2 Mehefin 2025 |

**Nodwch, mae’n bosib y gall y dyddiad hwn newid.**

Os codir unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, cyhoeddir adroddiad a bydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

Hysbysiad statudol yw cyhoeddi cynnig terfynol yn ffurfiol. Gwneir hyn dim ond os bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â chynnig, ar ôl ystyried yr holl ymatebion o’r broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Gofynnwn yn garedig i ymgyngoreion ysgrifennu yn ystod y cyfnod gwrthwynebu dim ond os oes ganddynt wrthwynebiad swyddogol i’r hysbysiad statudol. **Bydd yn rhaid i unrhyw sylwadau cadarnhaol a dderbynnir yn ystod y cyfnod hwn gael eu trin fel gwrthwynebiadau, hyd yn oed os ydynt o blaid y cynnig.**

Gall ymgyngoreion gyflwyno eu gwrthwynebiadau i’r hysbysiad statudol drwy anfon e-bost at YsgolCaerGwenynConsultation@wrexham.gov.uk neu drwy ysgrifennu at: Ymgynghoriad Ysgol Cae’r Gwenyn, Addysg, Adeiladau’r Goron, 31, Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG.

## Penderfynu ar Gynnig

Bydd canlyniadau'r Hysbysiad Statudol yn cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd Gweithredol ym mis Gorffennaf 2025 a chytunir ar benderfyniad ynghylch a ddylid rhoi'r cynnig ar waith. **Nodwch, mae'n bosib y gall y dyddiad uchod newid.**

## Hysbysiad o'r Penderfyniad

Yn amodol ar roi'r cynnig ar waith, bydd hysbysiad o benderfyniad ar gael i bob ymgynghorai. Bydd yr hysbysiad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl yn dilyn y penderfyniad.